Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher 27 Mai 2009 am 7.30pm

Presennol: Y Maer y Cyng Edward Thomas, y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Ros Bellamy, y Cyng Chris Parish, y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Roy Davies, y Cyng Hugh Towns, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Julia Jones
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng Fran Murphy

Materion yr Heddlu. Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cwnstabl Vernon Thomas, a ofynnodd i'r Cyng Colin Jenkins adrodd eu bod wedi datgelu 3 o droseddau cyffuriau yn ystod y mis, 2 am feddiannu ac 1 am gynhyrchu. Bu hefyd un achos o ymosod ac 1 o siopladrad. Llwyddwyd i ddod o hyd i'r troseddwyr yn y ddau achos hyn. Roedd ymholiadau yn parhau ar gyfer 1 achos o ladrad.

Cof 44 / Mai /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Dymunodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones longyfarch y Maer y Cyng Edward Thomas ar ei flwyddyn ardderchog o wasanaeth i'r gymuned. Dywedodd y CS Jones y byddai'r cam cyntaf ar gyfer parcio yn y Dref i breswylwyr yn cael ei roi ar brawf yn fuan. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â thraffig Adeiladau'r Banciau. Roedd ymgynghoriad ynghylch y cynigion ar gyfer ad-drefnu tair lefel ar draws ysgolion uwchradd Dinefwr ar waith gyda rhieni o'r ysgolion cynradd a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan unrhyw newidiadau.

Cof 45/ Mai / 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 22 Ebrill, 2009 yn gofnod cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater.
Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 13 Mai 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.
Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 13eg Mai, 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn gyda'r newidiadau canlynol;
Cof 37 /Mai / 09. Cyfrifon i'w Talu . Ychwanegu anfoneb gan Charles B.Sams am waith a wnaethpwyd yn Neuadd y Sir am £189.02
Cof 38/ Mai / 09. Balansau'r Cyfrifon. Ychwanegu - adroddodd y Swyddog Cyllid ei fod wedi cyflwyno hawliad TAW am £6,326.11.

Cof 40 /Mai /09 Materion Ariannol Eraill.
Dylai'r balans a ddygir ymlaen ddarllen *£ 39, 588*.86 ac nid £ 39, 58.86.
Cof 40 / Mai/ 09.(4). Ychwanegu'r gair Consort at – Bydd y Clerc yn holi Fatterini ynghylch medal addas i'r ddau ryw i'w chyflwyno'n flynyddol i'r cyn feiri.
Cynigwyd y cofnodion hyn gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 46 / Mai / 09 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Parth: Cof 19/Ebrill /09 Adroddodd y Cyng Roy Davies na fu enwebiad y Cyngor o Mr Dennys Smith am wobr am lwyddiant oes gan Goleg Prifysgol y Drindod yn llwyddiannus. Cytunwyd i ail gyflwyno'r enwebiad os ceir gwahoddiad am wobrau'r flwyddyn nesaf.

Cof 47 / Mai / 09 Gohebiaeth y mae'n rhaid ei hateb

1. Agorwyd y tendrau canlynol am waith atgyweirio'r portico a blaenlun Neuadd y Sir yn y cyfarfod:-
   Prospect Construction - £ 8,122.30
   DC & MC Moses - £ 8,350.00
   Ni chyflwynwyd pris gan Mr Siggery
   Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace bod y Cyngor yn derbyn y tender lleiaf. Roedd pawb o blaid.
2. Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed parth. Goleuadau argyfwng i'w gosod yn Neuadd y Sir. Roedd Ken Murphy wedi cytuno i gyfraniad o £1,000 oddi wrth yr Ymddiriedolaeth tuag at y gost o osod y goleuadau a amcangyfrifwyd i gostio rhwng £ 5-6000. Nodwyd.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Ddeddf Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2005. Bydd y Swyddog Cyllid yn darllen ac yn adrodd nôl yn y cyfarfod nesaf .
4. CSC – Cyhoeddi papurau pwnc cefndir parth. y LDP. Byddai'r Cyng Roy Davies yn darllen ac adrodd nôl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor llawn.
5. CSC – Jonathan Fern parth. Gwerthu Hen Neuadd y Farchnad. Nodwyd.

Cof 48 / Mai / 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cynllun Strategol 2010- 2015. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn darllen ac yn adrodd nôl.
2. Shelter Cymru – Digwyddiadau haf 2009. Nodwyd.
3. Norwich Union – newid ei enw i Aviva. Nodwyd.
4. CSC. Cwrs archwilio meysydd chwarae
5. Seminarau Zurich 2009. Nodwyd.
6. Un Llais Cymru. Hysbysiad am y Gynhadledd Flynyddol ar y 10fed Hydref, 2009.
7. Bwrdd yr Iaith Gymraeg – Llyfryn newydd. Nodwyd

Cof 49 / Mai /09 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w Talu

   Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (Cynllunio a chodi arwyddion)£ 1,334.00

Edward Thomas (Derbyniad Clwb Rygbi Llandeilo)	£	44.70
Edward Thomas (Derbyniad Clwb Rygbi Llandeilo)	£	4.35
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£	30.00
J.W.Thomas (argraffu taflenni)	£	250.00
J.W.Thomas (argraffu bwydlenni)	£	120.00

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

2. Archwiliad ariannol 2008-9
   Llenwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan Gynghorwyr a chofnodwyd hyn gan y Swyddog Cyllid. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.

Cof 50 / Mai / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor ar bob mater technegol. Dywedodd fod y torri gwair cyntaf ar y llwybrau traed wedi ei gwblhau. Cytunwyd y dylid aros cyn torri coed i lawr o randir y Cyngor nes bod y tymor nythu adar statudol wedi dod i ben.
Cynigodd y Maer y dylai'r Baneri Cenedlaethol a brynwyd ar gyfer Treialon Cŵn Defaid y Byd cael eu codi eto ar gyfer yr haf i groesawu ymwelwyr i'r dref yn barod am ddigwyddiadau parc Penlan, yr Ŵyl Gerddoriaeth a Blodau a Sioe Llandeilo. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid. Bydd Mr Davies yn gwneud trefniadau gyda'r contractwr a ddefnyddiwyd y llynedd.
Diolchodd y Cyng Hugh Towns i Mr Davies am yr adroddiad ardderchog.

Cof 51/ Mai / 09 Materion Cludiant a Phriffyrdd i'w trafod

Adroddodd y Cyng Colin Jenkins fod y llinellau melyn dwbl a addawyd ar gyfer y ffordd y tu allan i Adeiladau'r Banciau, yn dal heb gael eu peintio. Yn ogystal roedd llawer o gerbydau gan gynnwys lorri sbwriel CSC yn teithio'r ffordd anghywir i lawr y ffordd. Cynigwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace y dylai'r Clerc ysgrifennu at Briffyrdd CSC yn datgan siom y Cyngor ynglŷn â'r problemau traffig. Bydd copïau yn cael eu hanfon hefyd i'r heddlu a'r goruchwyliwr parcio am eu sylwadau. Roedd pawb o blaid.

Cof 52 / Mai / 09 Gwerthusiad Staff 2008-9 Pwyntiau Gweithredu
Cynhaliodd y Maer gyfarfod grŵp gyda'r tri swyddog ynglŷn â'r Gwerthusiad Staff.
Y prif bwyntiau gweithredu oedd:

a) Byddai'r peiriant ateb yn cael ei gyfnewid am ffôn sy'n defnyddio gwasanaeth 1571 BT, y gallai'r Cyngor ei ddefnyddio o bell. Byddai hyn yn gwella effeithlonrwydd y dulliau cysylltu.
b) Byddai'r Swyddogion yn cwrdd yn chwarterol i drafod materion cyffredin.
c) Byddai'r Clerc a'r Swyddog Cyllid yn derbyn gyriannau caled allanol i'w defnyddio yn storfa wrth gefn ar gyfer eu ffeiliau.

Eiliwyd y mesurau hyn gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 53 / Mai / 09 Adroddiad y Maer.
Rhoddodd y Cyng Edward Thomas adroddiad ar yr achlysuron a fynychwyd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Dywedodd y byddai'r Cyng Charlotte Leadbeater a'r Swyddog

Technegol yn mynychu'r arolwg o barc Penlan ar 29 Mai. Bydd yr arolygwyr yn barnu a yw'r parc yn gymwys am wobr baner werdd.
Diolchodd y Maer i'r Clerc, y Swyddog Cyllid a'r Swyddog Technegol am eu gwaith caled yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Diolchodd hefyd i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod y flwyddyn.

Cof 54 / Mai / 09 Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan

Cylchredodd y Cyng Charlotte Leadbeater adroddiad yr is-grŵp ar y digwyddiad Miri yn y Parc i'w gynnal ar 20 Mehefin. Roedd yr holl drefniadau yn eu lle. Cytunwyd y byddai cyfarfod byr ar 3 Mehefin, ar ôl ailafael yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, i'r holl gynghorwyr a oedd ar gael i helpu ar y diwrnod.

Cof 55 / Mai / 09 Adroddiadau Eraill

1) Dywedodd y Cyng Roy Davies ei fod wedi cyflwyno dau brosiect i'w hystyried gan brosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Teimlai y gallai'r prosiect ar randir y Cyngor gael ei ymchwilio'n bellach.
2) Bydd y Cyng Davies hefyd yn ymchwilio a oes modd i'r Cyngor gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Ddinesig ar y Prosiect Drysau Agored ym mis Medi.
3) Dywedodd y Cyng Ros Bellamy y byddai'r cais am Bentref y Flwyddyn Calor Gas yn cael ei gyflwyno ar 28 Mai, 2009.

Cof 56 /Mai/09 Unrhyw eitemau o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gofynnodd y Cyng Hugh Towns ar ran Ysgol Gynradd Llandeilo am ganiatâd i'w chyngor ysgol gynnal ei chyfarfodydd yn siambr y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol.

Cyflwynodd y Maer, y Cyng Edward Thomas, lun i'r Cyngor ohono'i hun gydag Arglwydd Dynevor, Uchel Siryf Dyfed, a Claire Mansel Lewis, a dynnwyd yn agoriad Dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm